


# EICH

# TAITH



AT DDOD YN BAROD  
AR GYFER YR ARHOLIADAU

**CROESO I**

## **LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (EGWYDDORION A CHYDDESTUNAU)**



Mae cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn addas i chi os ydych chi dros 16 oed ac mae gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymwysterau yn cynnig llwybr dilyniant addas os ydych chi wedi astudio cymwysterau Lefel 2 yn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ac maen nhw hefyd yn addas os nad ydych chi wedi astudio iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenorol ond eich bod â'r gallu i astudio Lefel 3.

Mae'r cymwysterau yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gofyn i chi eu cyflawni yn rhan o'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Os ydych chi'n dilyn unrhyw un o'r cymwysterau hyn, argymhellir yn gryf eich bod wedi cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu eich bod yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

Mae'r **Dystysgrif** yn cynnwys tair uned orfodol (fel arfer yn cael eu cwblhau mewn blwyddyn).

Mae'r **Diploma** yn cynnwys chwe uned orfodol (fel arfer yn cael eu cwblhau mewn dwy flynedd).

Er mwyn cwblhau'r cymhwyster **Diploma**, bydd angen i chi hefyd ymgysylltu â'r sector am isafswm o **100** awr, a rhaid treulio **60** o'r oriau hynny ar leoliad gwaith.

## **CYNLLUNIO YMLAEN...**

Mae'r cymwysterau yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Drwy astudio Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, byddwch chi'n gallu meithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn arbennig, byddwch chi'n gallu dangos eich bod yn:

- deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu eu cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall a myfyrio ar sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt
- deall y modd y gellir hybu a chefnogi ymarfer a llesiant

person-ganolog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

- gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso damcaniaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a myfyrio ar y modd y gallent ddylanwadu ar ymarfer
- ymwybodol o newidiadau polisi yn y sector a'r modd y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eich astudiaethau.

Mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach, ond gallwch chi hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill o fewn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant; er enghraifft, cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer. Mae hefyd yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch neu brentisiaethau.

# GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

## AWGRYMIADAU

**Dewch i'r arfer â chadw gwybodaeth** am wasanaethau a darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

**Darllenwch erthyglau yn y cyfryngau ac ar-lein** i gynyddu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o holl gynnwys y fanyleb.

**Ystyriwch astudiaethau** achos ffuglennol er mwyn meithrin dealltwriaeth o anghenion gofal gwahanol unigolion a sut mae cael mynediad at wasanaethau ac ati.

**Meddyliwch am sut gellir diwallu anghenion** gofal unigolion orau a sut gellir sicrhau gwerthoedd craidd mewn sefyllfaoedd gwahanol.

**Meddyliwch am ffactorau sy'n gallu achosi** newidiadau i dwf a datblygiad unigolion a'r newidiadau yn eu hanghenion.

**Sicrhewch eich bod yn ymgysylltu â'r sector:** ymweliadau, lleoliadau gwaith, gwrando ar siaradwyr, gweminarau ar-lein ac ati.

**Gwylwch raglenni sy'n ymwneud â iechyd a gofal** cymdeithasol ar-lein a/neu ar y teledu i ymchwilio ac archwilio'r testunau y byddwch yn eu trafod yn y dosbarth.

**Datblygwch sgiliau dadansoddol ar bob cyfle.**

## CANLLAWIAU LLESIANT

### **Cymerwch gamau bach.**

Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

### **Cymerwch egwyllion rheolaidd o adolygu.**

Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

### **Edrychwch ar ôl eich hun.**

Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.

### **Byddwch yn bositif.**

Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

### **Cofiwch fod pawb yn wahanol.**

Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

## SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU?

Mae'r Dystysgrif a'r Diploma yn cael eu hasesu drwy gyfuniad o asesiadau allanol a mewnol.

### **Tystysgrif Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**

Bydd angen i chi gwblhau dwy dasg asesiad di-arholiad dan amodau rheoledig. Bydd hyn yn cynnwys ysgrifennu adroddiad a llunio pecyn gwybodaeth. Byddan nhw'n cael eu marcio gan eich athro a'u cymedroli gan CBAC.

### **Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth**

Bydd arholiad ysgrifenedig ym mis Ionawr a mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Mae gennych chi ddau gyfle i sefyll yr asesiad hwn, os oes angen, a byddwch chi'n derbyn y marc gorau.

### **Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes**

Bydd angen i chi gwblhau tasg aseiniad asesiad di-arholiad dan amodau rheoledig. Gall fod yn seiliedig ar grŵp o unigolion o'ch dewis chi a rhaid i chi gynhyrchu tystiolaeth, naill ai fel podllediad, cyflwyniad neu fideo. Bydd yn cael ei marcio gan eich athro a'i chymedroli gan CBAC.

### **Diploma Unedau 1, 2 a 3 fel yr uchod - yn ogystal â'r canlynol:**

#### **Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol**

Bydd angen i chi gwblhau aseiniad asesiad di-arholiad dan amodau rheoledig, a fydd yn cynnwys ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun. Bydd yn cael ei farcio gan eich athro a'i gymedroli gan CBAC.

#### **Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael**

Bydd arholiad ysgrifenedig ym mis Ionawr a mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Mae gennych chi ddau gyfle i sefyll yr asesiad hwn, os oes angen, a byddwch chi'n derbyn y marc gorau.

#### **Uned 6: Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol**

Bydd angen i chi gwblhau aseiniad asesiad di-arholiad yn seiliedig ar eich cyfnod ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith. Bydd yn cael ei farcio gan eich athro a'i gymedroli gan CBAC.